GEIRFA 26

HEDDWCH
Rhifyn 92 > Ebrill 2026 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

TWYLL

GWOBR HEDDWCH



DADREOLAETH

Drilia, was'i, drilia

TERFYSGWYR


AMDDIFFYN

DIOGELWCH

YNNI GLÂN

GWAEDD UWCH ADWAEDD – A OES HEDDWCH?

Gwylnos Caerdydd, Gŵyl Dewi 2026. Rhyfel anghyfreithlon arall heb fandad yn rhwygo drwy'r Dwyrain Canol. Starmer yn penderfynu yn y man i adael i'r UD hedfan o feysydd awyr 'RAF'. Dim ond yr Iraniaid ddylai benderfynu ar eu dyfodol, nid Trump a Netanyahu.
STWC Caerdydd

Y rhyfel yn erbyn y CU

Fis Ionawr, rhybuddiodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig António Guterres am y dirmyg cynyddol at gyfraith ryngwladol yng nghoridorau pŵer. Caiff y cytundebau hawliau a diogelwch y brwydrwyd drostynt ac a sefydlwyd ym 1945, fel antidôt i erchyllterau dau Ryfel Byd, bellach eu hanwybyddu'n rheolaidd, yn ddi-hid.

"Os daw i ben,
fe ddaw i ben..."

Donald Trump ar y cytundeb niwclear 'START Newydd' (gweler t.4)

Mae gelyniaeth i'r CU wedi profi'n angheuol. Yn Gaza, lladdwyd 179 o weithwyr UNRWA (Asiantaeth Cymorth a Gwaith y Cenhedloedd Unedig); mynnodd Israel ddynodi'r corff CU hwn yn grŵp terfysgol, heb arlliw o dystiolaeth (yn ôl y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol).

Mae'r CU a'i asiantaethau'n cael eu hamddifadu o gyllid gan UDA a gwledydd eraill. Mae dadgyllido yn ergyd farwol i'n holl obeithion am blaned well. Heb gyllid digonol, mae'r CU yn analluog. Mae Israel, sy'n anwybyddu penderfyniadau'r CU yn gyson, ac UDA yn ymosod beunydd ar Guterres a Rapporteur y CU Francesca Albanese. Maent yn siarad o'r galon, ond yn cael eu pardduo.

Gellir deall y rhwystredigaeth gydag effeithlonrwydd y CU. Mae rhai problemau gyda'r CU yn strwythurol. Mae pŵer feto'r Cyngor Diogelwch yn sylfaenol annemocrataidd – ond hebddo, ni fyddai'r uwch-bwerau wedi ymuno yn y lle cyntaf. Mae safonau dwbl felly wedi'u gwreiddio yn y CU, gan roi'r byd deheuol o dan anfantais. Mae angen grymuso Cynulliad Cyffredinol y CU yn radicalaidd, ond mae datrys hynny'n ymddangos yn amhosibl. Gallai torri'r Cwlwm Gordaidd chwedlonol fod yn angheuol.

Y CU yw gwarcheidwad ein holl gytundebau gwrth-arfau niwclear, gan gynnwys y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, y TPNW, sy'n hanfodol i oroesiad dynolryw. Methodd

UNRWA

Cynghrair y Cenhedloedd atal yr Ail Ryfel Byd o achos llawer o'r un problemau sy'n rhwystro'r CU heddiw. Dydy'r gormeswyr yn malio dim, felly rhywsut, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd yn rhyngwladol – does gennym ni, y bobl, ddim dewis ond malio.

Yn y rhifyn hwn

CHWALU A CHIPIO BYD-EANG
Philip Steele 3

85 EILIAD I HANNER NOS
Peter Adamson 4

CAEWCH Y CWBWL!
Lakenheath Alliance 5

DADLEOLI SYSTEMATIG
Jane Harries 6

MANIFFESTO GŴYL DEWI
Richard Outram 8

DIWEDDARIADAU NIWCLEAR
Robat Idris, Brian Jones 9

MÔN I FYNWY
Newyddion Cymru 10

SILFF LYFRAU 12

Life at the Fence,
Janine Wiedel, Jill Gough

No to Nuclear,
Linda Pentz Gunter
Linda Rogers 14

HYSBYSFWRDD 15

Teyrnged: Stephen Abrahall
Jill Gough 15

Cysylltiadau 16

James Gilray, 1805

Cerfio'r cwbl i fyny, y tacle trachwantus... a dal i wisgo hetie dwl heddiw! Mae imperaliaeth yn ôl mewn ffasiwn. O.N. A ddiflannodd e go iawn erioed?

CHWALU A CHIPIO BYD-EANG

• Venezuela • Cuba • Gaza • Y Lan Orllewinol • Wcráin • Iran I • • Swdan • Myanmar • Yr Ynys Las • Minnesota • Iran II • • Libanus • Gwledydd y Gwlff • Affganistan • Pacistan • Yemen •

Wrth i ni baratoi'r rhifyn hwn o Heddwch, mae llawer o'r Dwyrain Canol ar dân. Eto fyth, rhoddwyd tragwyddol heol i'r UD ddefnyddo safleoedd milwrol ym Mhrydain. I ddibenion amddiffyn, nid ymosod, medd Starmer ond anodd dweud p'run yw p'run wrth i'r bomiau ddisgyn arnoch. Mae Cuba'n ymuno â Gaza nawr ar y llwybr at newyn. Mae'r nod yn aneglur. Ni ddaw â heddwch gam yn nes.

Yn y cyfnod byr ers y Nadolig diwethaf, ysgubodd corwynt o drais gwladol anghyfreithlon y byd. Caiff penaethiaid gwledydd tramor eu herwgipio neu eu llofruddio ar gais un dyn. Cyhoeddir rhyfeloedd heb unrhyw fandad democrataidd. Caiff adnoddau gwledydd eraill eu lladrata a'u cludo i'r UD. Mae'r POTUS hwn yn anwybodus, yn fympwyol, yn ddryslyd, yn benwan, ac wedi'i yrru gan drachwant. Mae ei wyriadau polisi cyfoglyd yn hau dryswch a chasineb gartref a thramor. Troes Echel Drygioni yn Echel Anhrefn, hen gêm Adolf Hitler.

Bangor, Dwylo oddi ar Iran 7 Mawrth '26

Beth yw nod ein Harglwyddi Camreolaeth presennol? Eglurodd un ohonynt, Marco Rubio, wrth Gynhadledd Diogelwch Munich ar 14 Chwefror 2026. Imperialaeth amrwd, gwladychiaeth setlwyr, goruchafiaeth yr hil wen. Beio'r comiwnyddion, yr hen fraw Coch! Nonsens iwtopaidd yw cyfraith ddyngarol ryngwladol. Gwaetha'r modd, llyncodd llawer o'r gynulleidfa yr holl nonsens ar ei ben. Ail-arfogi, prynu mwy o fomiau, Trump a'i ddilynwyr i reoli'r byd.

Mae'r Almaen, Prydain a Ffrainc eisoes wrthi'n cynhyrchu mwy o arfau – i wneud arian! Ceir yr un aflwydd yma yng Nghymru. Dengys y Cytundeb Twf i Amddiffyn Cymru gwerth £50 miliwn a lofnodwyd gan San Steffan a Chaerdydd y gaeaf yma yr un diffyg gweledigaeth. Caif darnau mawr o gefn gwlad Cymru eu difetha a'u troi'r feysydd tanio, yn aberth i rym milwrol ac egwyddorion parhaol Epynt. Am uchelgais gibddall – pan fo cymaint o botensial yn ein gymunedau! Rhowch y gorau i gynllunio cymdeithasol o blaid dronau, a does dim byd ar ôl sy'n werth ei amddiffyn.

"Canys gwynt a heuasant, a chorwynt a fedant."

Hosea 8:7

PHILIP STEELE

85 EILIAD I HANNER NOS...

O ddifri? Yn ôl at hyn? Profion niwclear ym Mholynesia Ffrengig ym 1971 *CTBTO*

Yn y Gorllewin, y rhesymeg dros gadw ac ehangu arfogaethau niwclear a'u systemau dosbarthu (pan gynigir un) yw er mwyn ein diogelu ni mewn byd peryglus. Anaml yr holir pwy a gynhwysir yn y 'ni' hwnnw.

UDA sydd â'r arfogaeth niwclear fwyaf. Yn y 80 mlynedd ers Hiroshima a Nagasaki, dilynodd wyth gwlad arall yr UD a datblygu eu bomiau eu hunain: Prydain, yr Undeb Sofietaidd/Rwsia, Ffrainc, China, Gogledd Corea, Israel, India a Phacistan.

START Newydd yn dod i ben

Daeth cytundeb arfau niwclear START Newydd (Cytundeb Lleihau Arfau Strategol 2010 rhwng UDA a Rwsia) i ben ym mis Chwefror. Roedd yn gytundeb oedd yn cyfyngu ar nifer arfau niwclear y naill ochr a'r llall, ac yn caniatáu archwiliadau gwirio. Yn awr, does dim unrhyw fath o gytundeb ar hyd yn oed y pethau mwyaf sylfaenol.

"Heddiw croeswyd y trothwy i fyd newydd arswydus, un heb ddim terfynau ar arfau niwclear y ddau bŵer niwclear mwyaf ar y Ddaear."

Cynrychiolydd yr UD John Garamendi

Gosod y larwm

Ym mis Ionawr, symudodd 'Cloc Dydd y Farn' Bwletin y Gwyddonwyr Atomig yn agosach at hanner nos wrth i bwerau niwclear mawr ehangu eu bygythiadau niwclear. Roedd effeithiau cynyddol Newid Hinsawdd, technoleg Deallusrwydd Artiffisial a thueddiadau cenedlaetholgar byd-eang hefyd yn ffactorau a wthiodd fysedd y Cloc tuag at hanner nos, yn ôl y gwyddonwyr.

'Clywodd Cynhadledd Ddiogelwch Munich o 13 i 15 Chwefror sawl arweinydd Ewropeaidd yn siarad am gynyddu rôl arfau niwclear yn eu strategaethau milwrol, gyda dim ond Prif Weinidog Sbaen yn gwrthod hyn.'

Melissa Parke, Yr Ymgyrch Ryngwladol i Ddiddymu Arfau Niwclear (ICAN)

Gwaharddiad llwyr nawr

Mae'r Cytuniad ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), un o gytundebau'r Cenhedloedd Unedig a ddathlodd ei 5 mlwyddiant ym mis Ionawr, wedi'i gynllunio'n benodol i roi llais i bob cenedl ar y blaned yn y broses o ddileu arfau niwclear. Mae 99 o genhedloedd allan o 197 wedi llofnodi'r cytundeb. Mewn cyferbyniad, mae'r pum aelod parhaol o Gyngor Diogelwch bondigrybwyll y CU i gyd yn bwerau niwclear hirhoedlog. Pwy sy'n gwneud fwyaf i gefnogi cenhadaeth y CU ers 1945 i 'gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol'?

Mae angen i wleidyddion goleddu'r TPNW ar frys fel ffordd ddifrif ymlaen i leihau'r bygythiadau byd-eang. Mae'n amlwg bod datblygiad y bom wedi achosi i fwy o wledydd ei ddeisyfu. Mae o bwys aruthrol ar hyn o bryd na fydd yr un wlad arall yn ymuno â'r clwb niwclear. Wrth i UDA ac Iran fynd benben â'i gilydd ynghylch rhaglen gyfoethogi niwclear gyfreithlon Iran, does dim byd i atal Iran rhag ymuno â'r TPNW. Byddai hynny o leiaf yn herio arfogaeth niwclear anghyfreithlon Israel.

PETER ADAMSON
a PHILIP STEELE

CAEWCH Y CWBWL!



Heddiw mae gan UDA 18 maes awyr milwrol yn Lloegr ac un yn yr Alban. Caiff Prydain ei defnyddio i bob diben fel llong gludo awyrennau, a'r gallu i gychwyn rhyfel niwclear – ond heb gynnal yr un bleidlais ar hyn yn San Steffan.

Fis Chwefror bu awyrennau cludo C-17 a jetiau ymladd F-35A yr UD yn hedfan i'r Dwyrain Canol o Lakenheath, a rhagor o Marham. I ddechrau, gadawodd Starmer i Trump eu defnyddio, nid ar gyfer cyrchoedd ymosodol uniongyrchol yn Iran ond i ddibenion amddiffynnol (sŵn blew yn hollti!) Denodd hynny ymateb dilornus gan Trump.

Nid yw UDA yn gynghreiriad dibynadwy. Mae'r 'bys ar y botwm niwclear' yn perthyn i Arlywydd sy'n anwadal ac yn anghyson, ac nad yw'n parchu cyfraith ryngwladol.

Herio tywydd gaeafol yn RAF (USAF) Fairford, Swydd Gaerloyw, 18 Ionawr 2026, mewn protest yn erbyn atafaeliad anghyfreithlon yr UD o danceri olew ger arfordir Venezuela.

Cynghrair Heddwch Lakenheath

28 Chwefror 2026 Gwrthdystiad yn 'RAF' Marham

1-6 Ebrill Gwersyll Heddwch Rhyngwladol Lakenheath

26-28 Mehefin Gwylnos Heddwch Lakenhaeth

Sadwrn 27 Mehefin

Gwylnos Heddwch Lakenheath CYMRU

Trefnwch gludiant, welwn ni chi yno!

Stori pentref...

DADLEOLI SYSTEMATIG

Yanoun a'i goed olewydd *Jane Harries*

Ychydig ar ôl 2pm ar ddydd Sul, 28 Rhagfyr 2025, cefais neges dorcalonnus: 'Mae Yanoun yn wag'. Pentref bach ger Nablus ar ar ogledd y Lan Orllewinol yw – oedd – Yanoun.

Yn 2012, treuliais 3 mis yno fel rhan o dîm rhyngwladol o Hebryngwyr Ecwmenaidd (arsylwyr hawliau dynol). Ein rôl oedd bod yno fel presenoldeb amddiffynnol, yn byw ochr yn ochr â phobl y pentref Palestinaidd oedd dan fygythiad parhaus gan setlwyr anghyfreithlon Israelaidd sy'n byw ar ben y bryniau, a gan fyddin Israel. O'n lleoliad yn y pentref, byddem yn cael ein galw allan i ddigwyddiadau yn yr ardal gyfagos. Buom yn gweithio gyda nifer o sefydliadau dyngarol a heddwch, gan gynnwys Rabbis for Human Rights ac UNRWA.

Yn dyst i droseddau yn erbyn dyngarwch

Nid oedd y digwyddiadau a welsom yn rhai a fyddai'n cyrraedd y penawdau – achosion parhaus o drais a chamdriniaeth â'r bwriad o wneud bywyd yn anodd i'r boblogaeth leol: llosgi coed olewydd, cam-drin neu anafu ffermwyr, tresmasu ar dir neu ei gymryd drosodd. Ar un achlysur yn Nyffryn Iorddonen atafaelwyd tanciau dŵr cymuned gan filwyr Israel am eu bod yn 'strwythurau anghyfreithlon'. Roedd y gwres yn 40 gradd ar y pryd a phobl heb fynediad at ddŵr – reit wrth ymyl setliad anghyfreithlon lle'r oedd digonedd o ddŵr.

Gweithredu yn ddi-gosb

Dro arall ger Yanoun ei hun, cafodd dau ffermwr lleol eu saethu a'u hanafu am adael i'w defaid bori mewn ardal a oedd, ym marn setlwyr, yn waharddiedig. Yma, fe welom ni'r fyddin yn cydweithio gyda'r setlwyr, er anfantais i'r boblogaeth leol: cafodd y ddau ffermwr eu gadael heb gymorth am oriau cyn derbyn y driniaeth feddygol briodol.

Gwytnwch a balchder

Roedd byw yn y pentref yn golygu mwy na bod yno fel presenoldeb amddiffynnol. Daethom i adnabod y trigolion yn bersonol, derbyn anrhegion o fwyd a chael ein gwahodd i'w cartrefi. Fe rannon ni achlysuron arbennig gyda nhw, fel agoriad swyddogol eu canolfan gymunedol newydd ei hailwampio gan y Conswl Prydeinig, neu ddathlu 'diwrnod addysg' yn y pentref. Daethom i'w caru a'u hedmygu am eu gwytnwch a'u balchder yn eu cymuned. Dychwelodd llawer ohonom sawl gwaith, yn aml i gymryd lle timau HE pan oeddent ar eu gwyliau hanner tymor.

Ar wahân i fod yn dristwch personol enfawr i'r rhai a oedd yn adnabod ac yn caru'r gymuned, ac yn drasiedi i'w thrigolion, mae'r ffaith bod Yanoun bellach wedi diflannu oddi ar y map o bwysigrwydd ehangach.

Problem barhaus

Yn gyntaf, nid dyma'r tro cyntaf i'r pentref gael ei ddadleoli. Yn 2002 cafodd y pentrefwyr eu herlid a'u cam-drin i'r fath raddau nes iddynt benderfynu gadael a symud i dref gyfagos Aqraba. Fe arweiniodd hyn at floedd o brotest gan heddychwyr rhyngwladol ac Israelaidd, a gynigodd ddarparu presenoldeb amddiffynnol pe byddai'r pentrefwyr yn dychwelyd. Fe wnaeth rhai, a chafodd bywyd yn y pentref ei adfer yn rhannol. Fodd bynnag, mae'r erlid a'r tresmasu parhaus gan y setlwyr wedi parhau i fod yn fygythiad cyson. Dros y blynyddoedd, fe wnaeth y setlwyr ddwyn mwy a mwy o dir y pentrefwyr, a olygai na allent adael eu defaid i bori ar lethrau'r mynyddoedd, gan fynd i fwyfwy o ddyled oherwydd gorfod prynu porthiant i'r anifeiliaid. Ers mis Hydref 2023, mae'r trais wedi cynyddu, gan arwain at yr ail ddadleoliad hwn. Mae'r setlwyr bellach wedi gosod giât ar draws y ffordd i'r pentref, ac ofnir ei bod yn rhy beryglus i unrhyw un ymyrryd, gan gynnwys mudiadau rhyngwladol.

Y darlun ehangach

Yn ail, nid digwyddiad unigryw mo hwn ond rhan o batrwm ehangach. Yn ôl y sefydliad hawliau dynol Israelaidd, B'tselem, Yanoun yw'r 45ed pentref ar y Lan Orllewinol i gael ei wacáu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn cadarnhau adroddiadau gan Balestiniaid a sefydliadau hawliau dynol am gynnydd mewn trais systematig a chydweithredu rhwng y setlwyr a'r fyddin. Chaiff neb byth ei gosbi am achosion o drais yn erbyn Palestiniaid. Mae hyn yn unol ag awydd llywodraeth bresennol Israel i wneud popeth o fewn ei phŵer i wadu statws gwladwriaeth i Balestina.

Mae sawl llywodraeth, gan gynnwys llywodraeth y DU, eisoes wedi cydnabod Palestina fel gwladwriaeth. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae polisi llywodraeth Israel o greu 'ffeithiau ar lawr gwlad' yn golygu bod llai a llai o diriogaeth gyfagos a allai fod yn sail i wladwriaeth gynaliadwy.

Tîm 43 EAPPI yn Yanoun, mis Medi 2012

Heddwch gyda chyfiawnder

Ni ddaw heddwch parhaol yn Israel a Phalestina trwy 'ddatrysiad' sydd yn seiliedig ar feddiannaeth, gwladychu a thrais. Rhaid ei adeiladu ar sail cyfiawnder, cydraddoldeb, parch at hawliau dynol a'r hawl i hunanbenderfyniad. Mae straeon fel eiddo Yanoun yn bwysig oherwydd eu bod yn dangos beth sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad a'r effaith ar gymunedau cyfan. Mae'n bryd i'r gymuned ryngwladol sefyll i fyny a dweud y gwir.

>>> Daliwch i bwyso

- Sgrifennwch at eich AS a'ch aelod Senedd lleol.
- Galwch am roi pwysau ar lywodraeth Israel. Soniwch am Gyngor Eglwysi'r Byd a'i alwad am sancsiynau gan yr UE ac embargo ar arfau, ac atal masnachu gyda setliadau anghyfreithlon.
- Rhwydweithiwch a galwch am weithredu. Defnyddiwch yr erthygl hon wrth siarad â'r wasg.

JANE HARRIES

Mae Jane yn Grynwraig ac yn aelod o Gymdeithas y Cymod. Mae hi'n gweithio fel Rheolydd Addysg Heddwch yn Cymru Global. Gwirfoddolodd gyda mentrau heddwch ym Mhalestina rhwng 2005 a 2016.

ADFYWIO'N GWRTHSAFIAD

Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru yn paratoi i wynebu'r heriau newydd o'n blaenau.

Welsh Anti Nuclear Alliance
Cynghrair Wrth Niwclear Cymru

Mae Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru (CWNC) yn paratoi'r ffordd ymlaen, gan ail-lansio ar Ddydd Gŵyl Dewi 2026 trwy gyhoeddi maniffesto newydd.

Bwriedir i'r Maniffesto apelio at weithredwyr, grwpiau ymgyrchu, cymunedau a chyrff penderfynu sy'n cefnogi'r angen i wrthsefyll cynlluniau llywodraeth Prydain i orfodi prosiectau pŵer niwclear newydd ar Gymru a llwgrwobrwyo'r genedl i dderbyn rhaglen ailarfogi niwclear a chynlluniau rhyfel Whitehall.

Yr heriau newydd

Yn ddiweddar, cyhoeddodd llywodraeth Starmer gynlluniau i ddatblygu cenhedlaeth newydd o'r hyn a elwir yn Adweithyddion Modiwlaidd Bach yn Wylfa ar Ynys Môn ac i ailbwrpasu safle Trawsfynydd ar gyfer cenhedlaeth ddiweddarach o Adweithyddion Modiwlaidd Uwch. Mae gan fyddin yr UD gynlluniau i ddatblygu dysglau radar yn Sir Benfro a fydd yn cefnogi cynlluniau i ymladd rhyfel niwclear.

Pwy sydd gyda ni?

Mae CWNC yn glymblaid o grwpiau sy'n dadlau dros Gymru wedi'i phweru gan ynni adnewyddadwy ac yn rhydd o fygythiad arfau niwclear. Mae'r aelodau'n cynnwys **CADNO** (Cymdeithas Atal Dinistr Niwclear Oesol), **CND Cymru**, yr **Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-isel**, y Gynhadledd Ymbelydredd Lefel-isel ac Iechyd, **Dim Llynfi Niwclear, PAWB** (Pobl Atal Wylfa B), **Stop Hinkley**, ac **Awdurdodau Lleol Di-niwclear Cymru**.

Y cefndir

Ffurfiwyd CWNC gyntaf dros 45 mlynedd yn ôl i wrthwynebu ehangu pŵer niwclear a chladdu gwastraff ymbelydrol, ac o blaid cadwraeth a defnydd rhesymegol o ynni. Ym mis Ebrill 1980, sefydlodd yr AS Paul Flynn, Les a Judy James, y ffermwr organig Peter Segar, ac amgylcheddwyr o Grŵp Ynni'r Canolbarth gynghrair i ddwyn ynghyd unigolion a grwpiau a oedd yn pryderu am faterion niwclear yng Nghymru.

'Cymru Ddi-niwclear' ac ers hynny

Chwaraeodd CWNC ac CND Cymru gyda'i gilydd ran flaenllaw mewn ymgyrchoedd fel yr un a barodd ym 1982 i holl brif awdurdodau lleol Cymru ddatgan eu bod yn ddi-niwclear; a wnaeth y cyhoedd yn fwy ymwybodol o risgiau iechyd damwain Chernobyl ac ymbelydredd lefel-isel; i wrthwynebu cynlluniau ar gyfer gorsafoedd niwclear newydd; a'r un a ymladdwyd yn fwy diweddar ar y cyd ag ymgyrchwyr o Wlad yr Haf i wrthwynebu dympio mwd ymbelydrol yn Aber Hafren.

Yn wyneb bygythiad o'r newydd gan ynni niwclear, mae'n amserol fod CWNC yn awr yn ail-ffurfio a lansio'r Maniffesto Gŵyl Dewi, mewn pryd i lobïo darpar-aelodau Senedd y dyfodol.

Fel yr oeddem: y 23 o Chwefror 2026 oedd 44 mlwyddiant arwyddo Cytundeb y Gymru Ddi-niwclear

>>> Gellir dod o hyd i'n maniffesto yn www.wana.wales

- Gwahoddir grwpiau newydd i ddod yn aelodau a gall unrhyw un ofyn am fynd ar ein rhestr bostio.
- Gellir cysylltu â CWNC yn uniongyrchol trwy e-bost at Richard Outram yn secretariat.wana@gmail.com neu ffôn 07583 097793.

RICHARD OUTRAM

BYRSTIO'r SWIGEN PR

Milwrol + sifil = RR²

Dyma'r cwmni sydd yn hollol ymrwymedig i raglen arfau niwclear y Wladwriaeth Brydeinig, drwy fod yn rhan greiddiol o'r llongau tanddwr sy'n cario taflegrau Trident. Gwir bwrpas cynllun Rolls-Royce am Adweithyddion Modiwlaidd "Bychan" (SMRs) yn Wylfa yw er mwyn cadw sgiliau niwclear, a nid darparu swyddi i'n gweithlu lleol. Gallwn ragweld y bydd llithro yn amserlen y cynllun, efallai o fwriad, gan y bydd hynny yn rhoi mwy o amser i ddylunio'r llong danddwr *Dreadnought* (cytundeb gwerth £9 biliwn) sydd i ddisodli'r llongau Vanguard presennol.

Llyncodd ein gwleidyddion lleol yr abwyd mai er lles Ynys Môn fydd atomfa ar Wylfa, gan ddiystyru'r peryglon aruthrol i ddiogelwch yn lleol, ac yn y pendraw yn fyd-eang.

ROBAT IDRIS

Be sy'n digwydd?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd Cwmni Egino yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2026. Sefydlwyd cwmni preifat o'r enw Cwmni Egino gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2021 er mwyn hybu datblygiadau niwclear ar safle Atomfa Trawsfynydd, gyda bwriad o greu dros 400 o swyddi hirdymor yn y diwydiant niwclear. Deallwn mai canlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth San Steffan ym mis Mai 2024 na fydd yna ddim Atomfa newydd yn dod i Drawsfynydd yw hyn. Derbyniodd y cwmni dros £4 miliwn o arian cyhoeddus. Beth a gafodd pobl ardal Trawsfynydd a Meirionnydd yn gyfnewid am y buddsoddiad? Faint o swyddi parhaol a grëwyd?

Yn ei le, oni ddylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cwmni wedi'i redeg gan gyfarwyddwyr sy'n ymwneud â chreu swyddi cymunedol? A beth am gynnwys Ynys Môn hefyd, gan fod yna flynyddoedd cyn y bydd unrhyw atomfa yn Wylfa yn dechrau – os y daw o gwbl – a gwir angen gwaith ar ein pobl ifanc.

ROBAT IDRIS

Rhwystrau'n lluosogi!

Methodd y cyfalafwyr menter Last Energy eu dyddiad cau Chwefror 2026 i gyflwyno'u cais cynllunio ar gyfer pedwar Adweithydd niwclear Modiwlaidd Bach yng nghwm Llynfi, rhwng Pen-y-bont a Maesteg. Ond trwy raghysbysu PEDW (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru) cawsant 18 mis arall i gyflwyno'u cynlluniau.

Mae'r cwmni'n wynebu dau rwystr technegol mawr: cael cymeradwyaeth y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) i ddyluniad yr adweithydd a chael eu prototeip 5 MW wedi'i adeiladu ac ar waith ym Mhrifysgol Texas A&M. Cododd dros $100 miliwn i adeiladu'r prototeip, felly fydd arian ddim yn broblem, ond nid tasg syml o bell ffordd yw troi cynlluniau papur yn realiti niwclear!

Mae gan yr ONR bryderon gwirioneddol hefyd bod adweithydd Last Energy yn cynhyrchu 'gwastraff egsotig' na ellir ei drin na'i storio yn y DU, hyd yn oed pe bai Cyfleuster Gwaredu Daearegol tanddwr yn cael ei greu. Bydd hyn yn rhwystr gwirioneddol i gael cymeradwyaeth i adeiladu eu hadweithyddion yma.

BRIAN JONES

>>> am y diweddaraf am Llynfi, cysylltwch â: brian.jones@phonecoop.coop



Targed? Dim diolch

Galwodd Gorllewin Cymru yn Erbyn Arfau gyfarfod pentref ar y 27 Chwefror 2026 ar ôl i gyn-Ddirprwy Brif Weinidog Rwsia gadarnhau bod **Aberporth** ar restr o dargedau posibl, oherwydd rhaglenni dronau QinetiQ a Tekever yno. Agorodd yr ail o'r rhain ysgol hyfforddi UAS (Systemau Awyr heb Griw) newydd ym Maes Awyr Gorllewin Cymru fis Ionawr 2026. Gwahoddwyd pobl leol, cynrychiolwyr y cwmni ac ymgeiswyr etholiadau'r Senedd, a chefnogwyd y cyfarfod gan CND Cymru a PARC yn erbyn DARC.

PARC yn erbyn DARC: 'Ewch gyda'r llif'

Mae gwrthwynebiad aruthrol **Sir Benfro** i leoli Uwch Radar Gofod Dwfn ym **Mreudeth** wedi bod wrthi cyn Ymgynghoriad Swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae PARC yn trefnu 'gorlifiad' o wrthwynebiad ar-lein cyn hanner nos ar y 23 Mawrth.

Teithio Palestina a Iorddonen

Yn neuadd eglwys Goptaidd Uniongred Llandudno, ar 7 Chwefror, cynigiodd Efa Hatem o grŵp Heddwch Conwy gyflwyniad diddorol a sylwadau am ei theithiau diweddar yn ardaloedd dan feddiant, Jerwsalem a'r Lan Orllewinol, a Gwlad Iorddonen. Calonogol oedd gweld hen law o wrthwynebydd cydwybodol yn y gynulleidfa, Donald Saunders, un na fydd byth yn methu protest yn 101 oed!

Arddangosfa Piech ym Mangor

Yn Chwefror a Mawrth, arddangosodd Storiel, amgueddfa ac oriel **Bangor**, waith celf graffig a phrint Paul Pieter Piech (1920-1996). Wcráiniad-Americanwr oedd Piech, yn briod â Chymraes, Irene Tomkins, a symudodd i Gymru yn y 1980au, i **Borthcawl**. Mae ei bosteri torlun leino pwerus yn ymgorffori ysbryd chwyldro, heddwch a chyfiawnder, ac yn dal i atseinio heddiw. Mae llawer o'i waith diweddarach yn cynnwys iaith a diwylliant Cymru. Cafwyd darlithoedd ar ei fywyd a'i waith gan yr artist Jim Creed. Ceir un o'r casgliadau mwyaf o waith Piech yng Ngholeg Cambria, **Wrecsam**.

Protestiadau Ynys Môn

Gwelodd RAF **Y Fali** ragor o brotestiadau a gwylnosau. Ar ôl y Nadolig, nododd ymgyrchwyr fod yr RAF yn gyfrannog gydag Israel ym marwolaeth dros 21,000 o blant Gaza.

Ar fore'r 23 Chwefror cynhaliwyd gwylnos wrth y ffens amgylchynol i gefnogi'r Diwrnod Gweithredu Byd-eang i Gau Safleoedd Milwrol.

Gwylnos RAF y Fali

Neges amserol o gynhadledd Atal y Rhyfel yn yr Wyddgrug, a oedd yn digwydd wrth i Israel-UDA ailgychwyn eu rhyfel anghyfreithlon gydag Iran. STWC Cymru

Atal y Rhyfel Byd-eang

Cynhaliodd Atal y Rhyfel Cymru gynhadledd yn **yr Wyddgrug** yn galw am derfyn ar ryfel byd-eang. Siaradodd David McKnight dros Atal y Rhyfel Cymru, tra cynrychiolai Linda Rogers CND Cymru, a Robat Idris Cymdeithas y Cymod. Dim Rhyfel Oer, Venezuela, Llysgenhadaeth Cuba, Amnest Rhyngwladol Cymru a Chydsefyll â Phalestina… adlewyrchai amrywiaeth y pynciau trafod nifer brawychus yr argyfyngau byd-eang sy'n pwyso ar ein meddyliau oll.

Gwahardd Palestine Action

Rhoddwyd croeso eang i ddyfarniad yr Uchel Lys ar 13 Chwefror bod gwaharddiad llywodraeth San Steffan ar Palestine Action fel sefydliad terfysgol mewn gwirionedd yn anghyfreithlon. 'Mewn byd teg, gellid gweld y dyfarniad hwn gan yr Uchel Lys fel buddugoliaeth ysgubol i Gyfiawnder. Bu gwirionedd a chyfiawnder ar ochr y Gwrthsafiad erioed. Er fy mod yn gymharol obeithiol o fuddugoliaeth yn y pen draw, dwi'n flin ond heb fy synnu bod (Shabana) Mahmood yn mynd i apelio.'

Dyma eiriau'r ymgyrchydd heddwch o **Aberystwyth**, Elizabeth Morley, merch i oroesydd Holocost a gafodd ei restio bum gwaith *(gweler clawr rhifyn 91 Heddwch)*.

Gŵyl Heddwch yn hau hadau

Yn ôl Jill Evans, mae Gŵyl Heddwch lwyddiannus Cwm Cynon, a gynhaliwyd yn **Aberdâr** fis Hydref diwethaf, wedi codi gobeithion am weithgareddau heddwch newydd yn **Rhondda Cynon Taf**. Penderfynwyd cychwyn "gwe heddwch" y Cymoedd. Caiff ei lansio ar 13 Mehefin (i'w gadarnhau) gyda seminar yn **Aberdâr** yn canolbwyntio ar ddau fater: gwaith Keir Hardy yn erbyn rhyfel a Deiseb Heddwch y Menywod. Gwyliwch y gofod yma!

Enw newydd ar ganolfan

Mae gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn y Deml Heddwch mewn Caerdydd enw newydd: Cymru Global. Ers 1938 mae'r byd wedi newid, a bu cefnogwyr, cyfranddeiliaid a phartneriaid wrthi'n trafod y ffyrdd ymlaen. Erys yr egwyddorion craidd: gwreiddiau Cymreig, gweithredu lleol a gweithredu byd-eang yn anwahanadwy, undod rhyngwladol a dinasyddiaeth fyd-eang. Nod cydweithredu ar heddwch, gweithredu ar yr hinsawdd, addysg a threftadaeth yw diogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Galw am heddwch yn Iran

Ar 7 Mawrth bu galwadau brys wrth Gofeb Ryfel **Bangor**, i wrthwynebu rhyfel anghyfreithlon Israel-UDA ar Iran. Mynychwyd y brotest gan fyfyrwyr Bangor, ymgyrchwyr heddwch a chyfiawnder gogledd Cymru ac CND Cymru. Coffawyd bywydau'r 165 o ferched a laddwyd ym Minab.

Gwyn Edwards a Marika Fusser, Bangor

ⓑ *Hawlfraint Janine Wiedel*

LIFE AT THE FENCE

Greenham Common Women's Peace Camp 1983-84

Janine Wiedel
Image & Reality (2025)
ISBN: 978-1-7384245-7-3
£40.00

Mae'r gyfrol wych hon o ffotograffau a chyfweliadau Janine Wiedel yn gofnod o fywyd bob-dydd yng Ngwersyll Heddwch Greenham ym 1983-84 a'r gweithredu uniongyrchol cyson o gwmpas presenoldeb diflas safle milwrol USAF/RAF.

Mae *Life at the Fence* yn ddarlun manwl a theyrnged ffotograffig i'r miloedd lawer o fenywod dewr ac ymroddedig a wynebodd elyniaeth a'r ddalfa yn eu brwydr i gael gwared o arfau niwclear Cruise yr UD o Brydain. Roedd Comin Greenham yn wersyll protest dan arweiniad menywod, gyda mamau a neiniau, a weithiau eu plant hefyd. Ceir geiriau caneuon ynghyd â hanesion gwych gyda'r holl ffotograffau rhagorol – y bydd llawer o ddarllenwyr yn adnabod ffrindiau, chwiorydd a chymrodyr ynddynt.

Wedi'u pardduo gan lywodraeth San Steffan a gwasg dabloid elyniaethus, daliodd Menywod Greenham ati nes i'r taflegrau gael eu symud. Wythnosau cyn i'r taflegrau cyntaf gyrraedd Greenham ym mis Tachwedd 1983, gwrthododd y Gweinidog "Amddiffyn" Michael Heseltine hyd yn oed warantu diogelwch y menywod rhag grym milwrol ar y safle. Cynyddodd gweithgaredd yr heddlu a restiwyd cannoedd yn dreisgar am droseddau – yn cynnwys canu!

Bydd llawer sy'n darllen y gyfrol ddathliadol hon wedi ymweld â'r Gwersyll Heddwch neu fyw yno; wedi cyfranogi yn y gweithredu uniongyrchol rhyfeddol, ac efallai wedi bod yn rhan o Orymdaith gyntaf Menywod dros Fywyd ar y Ddaear o Gymru ym 1981. Cofiwn hefyd am y rhai na allent gymryd rhan ond a gefnogodd o'u cartrefi, er enghraifft trwy godi arian ar gyfer torwyr bolltau i'r menywod a chynnig gwyliau seibiant iddynt. "Mae Menywod Greenham ym mhob man", a byddant yn dal i fod.

O Life at the Fence *Ⓗ Hawlfraint Janine Wiedel*

Pris rhyddid yw gwyliadwriaeth dragwyddol. Gallem fod mewn mwy o berygl nawr na nôl yn yr 1980au. Dywedodd Janine Wiedel yn ddiweddar: "Cafodd yr un tactegau o 'weithredu uniongyrchol di-drais' a ddefnyddiai menywod Greenham eu defnyddio gan Palestine Action – a waharddwyd gan y llywodraeth fel 'Grŵp Terfysgol', a gall eu cefnogwyr wynebu dedfrydau o hyd at 14 mlynedd drwy wneud dim ond dal arwydd yn eu cefnogi."

Mae'r llyfr hardd hwn o eiriau a ffotograffau ysbrydoledig sy'n darlunio Gwersyll Heddwch Menywod Greenham yn enghraifft ddisglair o bŵer ac angenrheidrwydd protest.

JILL GOUGH

COFFADWRIAETHAU'R GWANWYN YMA

Pryd ddysgan nhw fyth? Fukushima @ 15...

Nodir 15 mlwyddiant trychineb Fukushima eleni, fel y gwneir bob blwyddyn, ger yr 'Uchelgaer uwch y weilgi' eiconig, Pont y Borth.

Ar 11 Mawrth 2011, trawyd gorsaf bŵer niwclear Fukushima Daiichi yn Japan gan ddaeargryn a tswnami. Methodd y grid trydan a chyflenwadau wrth gefn, gan niweidio pedwar adweithydd. Toddodd y craidd. Cafodd tua 164,000 o bobl eu symud o'r ardal.

Teithiodd tair dirprwyaeth o ymgyrchwyr gwrth-niwclear Cymru o PAWB i Japan. Ymwelodd ymgyrchwyr o Gyfeillion y Ddaear Japan, Undeb Ffermwyr Fukushima a chyn-Brif Weinidog Japan, Naoto Kan, ag Wylfa, Cemaes, Porthaethwy a Chaerdydd.

Nid yw Cymru wedi dysgu'r gwersi 15 mlynedd yn ddiweddarach, na Japan chwaith, a ailgychwynodd orsaf enfawr Kashwakazi-Kariwa yn 2026.

Chernobyl @ 40

Ar 28 Ebrill 1986, ffrwydrodd adweithydd rhif 4 gorsaf bŵer niwclear Chernobyl (Chornobyl) yn Wcráin (rhan o'r Undeb Sofietaidd ar y pryd), gan ddinoethi'r craidd gyda chanlyniadau trychinebus a llu o farwolaethau, tymor-byr a thymor-hir. Datblygodd miloedd o blant ganser y thyroid. Dim ond nawr y cadarnhawyd bod y difrod o ymbelydredd ïoneiddio yn camffurfio DNA yn y genhedlaethau gyfredol a nesaf o fabanod. Croesawyd llawer o blant sâl am wyliau gan gymunedau ledled Cymru. Hyd yn oed yma, cyfyngwyd ar symud a gwerthu defaid yn ucheldir gogledd Cymru am 26 mlynedd arall.

Collodd y gromen ddiogelwch enfawr a osodwyd dros safle Chernobyl ei swyddogaeth yn hydref 2025 ar ôl ymosodiad drôn yn rhyfel Wcráin. Mae digwyddiadau'n cael eu trefnu yng Nghymru i goffáu'r drasiedi hon.



Lansio'r gyfrol yn Palas Print Caernarfon fis Mawrth 2026.
Linda Pentz Gunter yn sgwrsio gyda Mabon ap Gwynfor. Hi yw sylfaenydd mudiad Beyond Nuclear International yr UD.

Mae'r awdur yn cefnogi mudiad gwrth-niwclear Cymru ers amser maith.



NO TO NUCLEAR

Linda Pentz Gunter
Pluto Press 2026 240pp Paperback
ISBN 978-0745352107
£14.99

Pan glywch chi Linda Pentz Gunter yn siarad, gallwch fod yn sicr y bydd hi'n torri'n syth at galon y cwestiwn ac yn datgelu'r galon honno. Gwna hynny yn ei llyfr newydd, *No To Nuclear*. Ceir cryfder ei dadleuon yn erbyn pŵer niwclear yn y cysylltiad dynol a wna â'i phynciau: pobloedd brodorol a'u tir wedi'i wenwyno; y glowyr a'r gweithwyr wedi'u heintio gan ymbelydredd; yr anifeiliaid a'r ecosystemau a ddinistriwyd yn sgil toddiadau niwclear.

Mae'n 15 mlwyddiant Fukushima a 40 mlwyddiant trychineb Chernobyl ym mis Mawrth. Mae cyhoeddi'r gyfrol hon yn amserol. Daw hefyd ar adeg pan fo Trump yn bygwth Iran dros ei defnydd o bŵer niwclear, tra'n hwyluso datblygiad pŵer niwclear Saudi Arabia, heb unrhyw gyfyngiadau ar gyfoethogi wraniwm. Amseroedd peryglus yn wir.

Mae Gunter yn tynnu sylw at anghyfiawnder a diffyg dynoliaeth cynhenid defnyddio pŵer niwclear. Gwna'r cysylltiad clir hefyd rhwng pŵer niwclear ac arfau niwclear, gan gyplysu'r ail â newid hinsawdd fel y ddau fygythiad dirfodol i ddynoliaeth heddiw. Noda mai pŵer niwclear yw'r grym ysgogol sy'n eu cysylltu ill dau.

Mae hanes trefedigaethol i'r defnydd o bŵer niwclear: ecsploetio pobl nad yw eu bywydau'n bwysig. Rydym mewn oes lle mae llygredd y pwerau sy'n gyfrifol am yr ecsploetio dynol hwn bellach yn amlwg. Mae cynhyrchu pŵer niwclear yn cael ei ddadreoleiddio ar garlam, yn cynnwys ymdrechion yn yr UD i ailddiffinio terfynau diogelwch ymbelydredd. Yr un lleisiau breintiedig sy'n galw am barhau i ddrilio am olew sydd hefyd yn galw am fwy o fuddsoddi, o arian cyhoeddus yn gynyddol, mewn pŵer niwclear.

Mae arweinyddiaeth llywodraethau Prydain, yn cynnwys yng Nghymru, yn parhau i gefnogi hunllef pŵer niwclear, ar ein cost barhaus. Dylai'r arweinwyr hynny ddarllen y llyfr hwn.

LINDA ROGERS

NOTICE BOARD

Oes gan rywun syniad ar gyfer bathodyn newydd?

Bwriad CND Cymru yw argraffu bathodynnau newydd. Gwahoddir dyluniadau newydd ar gyfer bathodyn crwn 38mm. Os caiff eich dyluniad ei argraffu, cewch gyflenwad ohonyn nhw i ddiolch!

Anfoner dyluniadau at Brian.jones@phonecoop.coop

EISTEDDFODAU 2026

YNYS MÔN Eisteddfod yr Urdd, Maes Sioe Môn, Gwalchmai

23-29 Mai

Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

LLANGOLLEN Yr Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol 7-12 Gorffennaf

Gwobrau Heddychwyr Ifanc 2026

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL y GARREG LAS: Llantwd, Sir Benfro 1–8 Awst

Y Babell Heddwch, galwch heibio, da chi

Galw ar bob bardd, awdur, cartwnydd, artist a ffotograffydd! Cysylltwch â'r golygydd, da chi, os carech gyfrannu at *Heddwch*.

Stephen Abrahall

1950-2026

Byddai llawer yng Nghymru wedi adnabod Stephen, gydag aelodau CND Cymru wedi protestio ochr yn ochr ag ef ar Ymgyrch Stop Hinkley a mewn mannau eraill. Cyfrannodd hefyd at gylchgrawn *Heddwch*. Yn "hysbysddyn" diwyd yng Ngŵyl Glastonbury ac yn Gydlynydd CND Canol Gwlad yr Haf, bydd colled fawr ar ei ôl – fel ffrind, ymgyrchydd, cymrawd a gweithredwr glew dros ddegawdau.

Meddai'r ymgyrchydd gwrth-niwclear, Jim Duffy, "Ro'n i'n nabod Stephen yn rhinwedd ei swydd fel Cydlynydd CND Canol Gwlad yr Haf. Byddem yn cydweithredu'n aml ar faterion niwclear, yn enwedig dyfodiad arfaethedig Hinkley Point C.

Roedd Stephen yn ddyn addfwyn, cwrtais mewn cyferbyniad â'i faintioli. Roedd yn garedig ac yn gyfeillgar ond â synnwyr digrifwch sych. Roedd ei feddyliau a'i syniadau ar ymgyrch Stop Hinkley bob amser yn ddeallus ac yn aeddfed."

JILL GOUGH

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.

gwefan *www.cndcymru.org*
e-bost *heddwch@cndcymru.org*
instagram *@cndcymru*
gweplyfr *www.facebook.com/cndcymru/*

YMUNWCH AG CND CYMRU NAWR!

https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/
O dan 25? Hawdd! Gallwch ymuno â ni yn rhad ac am ddim ar-lein a lawrlwytho Heddwch o'r wefan.

Newidadau i'r tîm

Croeso cynnes i'n golygydd newydd, Jessica Thomas o Ynys Môn.

CYSYLLTIADAU

Is-gadeiryddion
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*

Trysorydd/Aelodaeth
Andrew Morris *aelodaeth@cndcymru.org*
Llwyn, Gwyddelwern, Corwen, Denbighshire LL21 9DG

Ysgrifennydd Cenedlaethol Y Wasg/ Cyfathrebu
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

Pwyllgor
Jill Gough *cyfryngau cymdeithasol;*
Alison Lochhead;
Jon Plumpton; Linda Rogers;
Philip Steele; Jessica Thomas

Cyswllt/Cynrychiolwyr
Cymdeithas y Cymod Carol Jenkins;
WANA Richard Outram
PAWB-CADNO Dylan Morgan;
Cyngor CND Prydeinig; Linda Rogers, Dylan Lewis-Rowlands

HEDDWCH
yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn *www.cndcymru.org*

Golygydd: Jessica Thomas *editor@cndcymru.org*
Cyfieithydd: Siân Edwards *siandefynnog@hotmail.co.uk*
Dylunydd: Tom Pollock *tom@excellent-design.co.uk*
Argraffwyd gan Serol Print, Castell-nedd 2026
Gwaith celf
Dai Owen t2; Ruth Jên Evans; t14

Nid yw cynnwys *Heddwch* o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad, llythyr neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Cyhoeddir rhifyn nesaf *Heddwch* ym mis Gorffennaf 2026.

Mwnci Coch